# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 9fed yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Gwynfryn Williams, Gwynedd Jones, Huw Charles, Arwel Davies, Geraint Jones, Geraint Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Llongyfarchwyd Arwel a Meryl Davies ar enedigaeth eu hwyres fach yn ddiweddar.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf
i) Cais am rwystrau i arbed cerbydau rhag mynd fewn i'r ffos ar y ffordd heibio Groeslon, Maesywaen – mi roedd y cais wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Drafnidiaeth yng Nghaernarfon.
ii) Torri coed yn ôl ger Bryn Rhydd, Maesywaen – roedd y gweithlu am docio'r coed.
iii) Coeden fach helygen yn tyfu fyny trwy'r cattle grid ger chwarel Cloddfa, Nodol – mi roedd wedi cael ei thynnu o'r grid.
iv) Mi roedd y cynghorwyr Elwyn Edwards a Gwynedd Jones a'r clerc wedi mynychu cyfarfod gyda theulu Llannerch Las a swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn ag ail adeiladu'r wal gynnal sydd wrth ymyl y tŷ. Yn anffodus nid oedd posib cael datrysiad ar y diwrnod ond cytunwyd y byddai Uwch Beiriannydd Cyngor Gwynedd yn ail ymweld ar safle i'w drafod ymhellach.
v) Cafwyd cadarnhad mae'r Urdd yn Glanllyn oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r llwybr rhwng Glanllyn a Llanuwchllyn.
vi) Cafwyd cadarnhad mae perchennog 12, Tai'n Rhos oedd yn gyfrifol am y ffens rhwng yr annedd a'r cae chwarae.

b) Cynllun Ardal Bala a Phenllyn.
Cafwyd adroddiad ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod cychwynnol.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Gorchymyn cau llwybrau troed cyhoeddus rhifau 1, 4, 5 ac 11, Y Bala, gwaharddiad defnydd dros dro.
ii) Biniau Halen - cafwyd cadarnhad fod Cyngor Gwynedd am ail gychwyn cyflenwi halen i'r biniau.

b) Un Llais Cymru.
i) Fersiwn ddiwygiedig o'r 'Model Brotocol ar gyfer Datrys Cwynion' - cytunwyd i'w fabwysiadwy'.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Pecyn Plannu Coed Dathliadau Pen-blwydd PCE yn 70 oed.
ii) Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain - cytunwyd i ddosbarthu'r wybodaeth.

ch) Dŵr Cymru.
i) Diweddariad ar y gwaith diogelwch ar Argae Llyn Celyn.

d) Amrywiol.
i) Cylch yr Iaith – gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar sail perygl i'r Gymraeg.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

ii) Cymdeithas yr Iaith - cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai - cytunwyd i arwyddo'r llythyr.
iii) Triathlon Y Bala - cytunwyd i gefnogi'r bwriad o gynnal y triathlon eto yn 2022.
iv) Cyfoeth Naturiol Cymru - Prosiect Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid - gwybodaeth bwysig am waith sylweddol sy'n dechrau.
v) Comisiwn Ffiniau i Gymru - gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd.
iv) Gwahoddiad i gyfarfod i drafod gôr dwristiaeth yn ardal Y Bala, 3/12/21

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
Cyflog a Chostau'r Clerc (Gorff-Medi), TWE.

c) Ffioedd HSBC.
Er y gwrthwynebiad cryf a'r cyfarfod rhwng yr aelodau seneddol lleol a phrif swyddogion y banc cafwyd cadarnhad nad oeddynt am newid eu meddyliau ac am godi'r ffioedd ar gyfrifon elusennol.

ch) Ceisiadau ariannol
Derbyniwyd cais ariannol gan Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
a) Gair o ddiolch i deulu Blaen Cwm, Parc.
Gofynnwyd i'r clerc anfon gair o ddiolch i'r teulu am eu hymgyrch diweddar i godi arian i'r elusen Bowel Cancer UK.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen:-
i) Angen torri coed ger mynedfa chwarel Arenig.

c) Amod Cynllunio 106.
Ail drafodwyd y rhwystrau oedd rhai yn ei wynebu wrth geisio cael morgais gan fod Amod 106 ynghlwm a'u cais i godi annedd newydd ac roedd y sefyllfa Covid wedi gwneud y sefyllfa yn anoddach fyth. Trafodwyd os byddai'n bosib i Lywodraeth Cymru weinyddu cynllun benthyca newydd ar gyfer sefyllfaoedd fel hyn.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Ionawr 11eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….